

Gweithgaredd 10

Gweithredu dros hawliau dynol

Rhan 1 Sefydliadau hawliau dynol

Nod: Dysgu am hawliau dynol drwy archwilio nodau a gweithgareddau sefydliadau gwirfoddol.

Amser: 1-2 awr. **Oedran:** 9+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** Cyfarwyddiadau gweithredu tasg (ar y CD, un i bob disgybl); Stori Amnest Rhyngwladol (ar y CD, ar gyfer Tasgau A, B, C); Ilun Peter Benenson ac erthygl yr Observer (ar y CD, ar gyfer Tasg A); Cardiau sefydliadau hawliau dynol a fersiwn gryno y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (ar y CD, ar gyfer Tasg Ch); tudalennau mawr o bapur dylunio (fesul grŵp); pennau blaen ffelt neu greonau (fesul grŵp); mynediad at y Rhyngwrwyd (ar gyfer Tasg Ch, os yw'n briodol).

Beth i'w wneud

Esboniwrch i'r dosbarth bod pedair tasg wahanol iddynt ddewis rhyngddynt. Dosbarthwch gopïau o'r Cyfarwyddiadau gweithredu tasg.

Gofynnwch iddynt ddewis un, neu dyrannwch y gwaith fel bo'n briodol, yn enwedig os ydynt wedi dangos diddordeb penodol, gan sicrhau bod dewis da ar draws y pedair tasg. Dylent weithio mewn grwpiau o ddau neu dri; fodd bynnag, dylai'r rhai hynny sy'n gweithio ar Dasg Ch weithio mewn parau.

Ar gyfer Tasgau A, B, C:

Dosbarthwch gopïau o Stori Amnest Rhyngwladol i bob grŵp. Esboniwrch y byddant yn archwilio hanes a gwaith Amnest Rhyngwladol. Rhwng amser iddynt ddarllen a deall y stori – efallai byddwch yn dymuno symleiddio'r wybodaeth yn dibynnu ar allu eich dosbarth.

Ar gyfer Task A:

Dosbarthwch y llun o Peter Benenson a'r erthygl yn yr Observer, sef The Forgotten Prisoners, a lansiodd Amnest Rhyngwladol.

Ar gyfer Tasg Ch:

Rhowch gerdyn sefydliad hawliau dynol gwahanol i bob pâr. Mae 5 sefydliad i gyd, felly gall hyd at 10 o blant gymryd rhan yn y dasg hon.

Yn ogystal, bydd angen tudalennau mawr o bapur tynnu llun a phennau blaen ffelt a chreonau ar y grwpiau.

Ewch at bob grŵp yn ei dro gan wrando ar eu syniadau, cynnig cymorth fel bo'n briodol, eu hatgoffa'n rheolaidd am yr amser a gwneud yn siŵr eu bod ar y trywydd iawn.

Rhowch amser iddynt ar ddiwedd y wers fel y gall pawb gael cyfle i gyflwyno canlyniadau eu gwaith.

Y TASGAU

TASG A

Crëwch sribyn cartŵn, gyda hyd at wyth llun iddo, yn adrodd yr hanes am gychwyn Amnest Rhyngwladol. Cofiwch gynnwys Peter Benenson a'r erthygl wreiddiol yn yr Observer, a lansiodd Amnest Rhyngwladol.

TASG B

Gwnewch boster i esbonio ystyr symbol Amnest Rhyngwladol – sef y gannwyll â gwifren bigog wedi ei lapio amdani.

TASG C

Crëwch hysbyseb deledu ddwy funud o hyd (chwarae rôl) neu apêl dros y radio ynglŷn â'r gwaith mae Amnest Rhyngwladol yn ei wneud heddiw. Defnyddiwch apêl er mwyn i bobl helpu yn eu gwaith gan ddefnyddio gwybodaeth o stori Amnest Rhyngwladol.

TASG CH

Archwiliwch a chyflwynwch waith a nodau sefydliad arall sy'n ymgychu dros hawliau dynol. Gan weithio mewn parau, defnyddiwch gerdyn y sefydliad hawliau dynol roddwyd i chi a'r Rhyngwrwyd (os yw'n briodol) er mwyn ymchwilio ymhellach. Wedyn:

- tynnwch lun logo'r sefydliad ar ddarn mawr o bapur;
- dewiswch un erthygl allan o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol sy'n cyfateb i bryder o'ch sefydliad chi;
- paratowch funud o sgwrs ynglŷn â'ch sefydliad ar gyfer gweddill y dosbarth.

**Gweler
ADNODDAU
CD ar
gardiau
sefydliadau**

